



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Cyfnod Ymgynghori Eilaidd: Cynrychiolaethau

Cyrol 2: 10178 (rhan 1)

[REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]

Annwyl Mrs Ustus Y Fonesig Nerys Jefford,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Cadwch fy holl fanylion, enw, cyfeiriad ac ati yn breifat a chyfrinachol os gwelwch yn dda. Diolch. Ar ôl yr ymgynghoriad, mae'n bosibl bod y gwaith anoddaf yn dechrau i roi popeth at ei gilydd i wneud y 31 etholaeth orau (un wedi'i ddiogelu). I gael y set fwyaf priodol ac addas o etholaethau sy'n rhoi etholaethau da i bob ardal. Mae'r rhain ar gyfer y dyfodol, o Hydref 2023 a thu hwnt, am y dwsin o flynyddoedd nesaf mae'n debyg. Felly mae'n rhaid i ni edrych i'r dyfodol a bod â hyn yn ein meddwl bob amser. Mae angen inni allu gwasanaethu betiau Cymru am weddill y degawd hwn a'r nesaf. Gan nad yw'r adolygiad nesaf tan 2023 ac felly'n debygol o beidio â bod yn effeithiol i ganol y degawd nesaf neu'n hwyrach. Mae angen i'r set o etholaethau drin pob ardal yn ffafriol. Ar y gorau, mae'r canolbarth hyd yn hyn wedi'i gymryd yn ganiataol. Mewn sawl ffordd fe'i defnyddiwyd i ffurfio nifer yr etholaethau i'r gogledd ac i'r de ohono. Mae wedi cael ei wasgu yn y canol ac mae'n dal i fod felly. Gyda'r adolygiad hwn, pan fo cymaint angen ac yn gorfod newid mae hwn yn gyfle i roi'r hyn mae'n ei haeddu i'r Canolbarth. Mae'n rhan "arbennig" o Gymru ac i'w hystyried yn gyfartal â'r lleill. Felly, rhaid iddo beidio â chael ei "wasgu" gan eraill. Os rhywbeth, dylai gymryd oddi wrth y lleill - y lleiaf o'r mwyaf. Dylai'r ychwanegiad hwnnw fynd i Ganolbarth Cymru. I'r Canolbarth, nid ohono. Oherwydd y ffaith bod Senedd y DU wedi penderfynu y bydd pob un o'i hetholaethau yn weddol gyfartal, ac yn ôl y boblogaeth yna'r meini prawf hyn - nifer yr etholaethau a'r niferoedd cyfansoddol - yw'r ffactorau llywodraethu a mwyaf blaenllaw y mae'n rhaid i bob un ond yr etholaeth "warchoddedig" lynu wrthynt. Felly mae gennym 32 o etholaethau - gostyngiad o bron i chwarter. Rhaid i bob etholaeth fod o fewn yr amrediad etholaethol. Rhwng y lleiaf a'r mwyaf gall fod ystod o 10% - amrywiad o gwota'r DU o +- 5%. Gellir manteisio ar hyn fel cyfle i ffurfio a chael yr etholaethau gorau i Gymru GYFAN ar gyfer y dyfodol. Y bydd pob rhan o Gymru yn cael ei gwasanaethu yn y modd orau. POB UN yn cael ei gynrychioli'n GYFARTAL.

Wrth enwi'r etholaethau byddai'n dda bod ag un enw. Hynny yw dim enwau amgen. Mae bod ag un enw yn dda ar gyfer hunaniaeth, undod a "chydberthynas" a bod pawb yn ei adnabod wrth yr un enw. Felly dim camgymeriadau na dryswch. Felly mae enw sydd yr un fath yn y ddwy iaith yn well. Felly, os yw and / a / ac i'w defnyddio, yna byddai'r ampersand (&) yn cael ei ddefnyddio, sydd yr un fath ym mhob iaith. Er bod mwy nag un enw yn cael ei ddefnyddio (dau neu dri) gyda'i gilydd, yna'r enwau yn unig, fel sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd e.e. Dwyfor Meirionnydd. Gyda hyn nid oes angen unrhyw enwau eraill. Y duedd yw defnyddio enwau

Cymraeg. Er enghraifft, Ceredigion (Carmarthenshire), Ynys Môn (Anglesey), Caerfyrddin (Carmarthenshire), ac ati. Ynganu a sillafu i'w wneud fel hyn, sef y ffordd ryngwladol dderbyniol o wneud pethau e.e., Mumbai (Bombay), Beijing (Peking), ac ati. Os nad ydych yn gwybod yr enw yn yr iaith arall, gall yr enw arall fod yn ddryslyd gan eu bod yn cyfeirio at (ac felly'n cyfieithu) i wahanol bethau e.e., Casnewydd/Newport. Gan roi pedwar enw i bob pwrpas! Felly, mae angen i chi wybod enw'r etholaeth yn yr iaith arall ymlaen llaw. Hynny yw, bydd angen i bawb wybod enw pob etholaeth yn y ddwy iaith er mwyn gwybod bob amser beth sy'n effeithio ar beth a phwy sy'n dweud beth ac yn y blaen. Felly peidio â bod ag enwau uniaith deul, ond i fod ag un enw dwyieithog ar gyfer pob etholaeth. Undod, cydlynant a hunaniaeth ar un ffurf. Mae cyfoeth o enwau Cymraeg. Os defnyddir enwau Saesneg, gwneir yn y ffordd Gymraeg. Defnyddio sillafu Cymraeg ac ati. Er enghraifft, milffwrdd, hwlford, ac ati. Er ei fod ar gyfer y DU gyfan, sef Senedd y DU. Ni ddylai fod rhaid i'r etholaethau fod ag un Saesneg. Yn yr Alban etholaeth Ynysoedd Heledd oedd etholaeth Ynysoedd y Gorllewin. Roedd pawb yn ei adnabod fel hynny ac yn ei ddefnyddio ledled y DU. Yna penderfynon nhw ddefnyddio'r Gaeleg, fe'i defnyddiwyd a dim ond y ffurf honno. Mae'r DU gyfan yn ei adnabod fel hynny ac fe'i defnyddir drwy'r DU gyfan - Na H- Eileanan An Iar. Mae hyn i fod yr un fath ar gyfer yr enwau Cymraeg. Pan fydd angen mwy nag un rhan i bennu etholaeth, yna mae dwy ran yn aml. Mae un rhan yn lleoli'r etholaeth (annibynnol). Mae un rhan yn ei gwneud yn fwy penodol (dibynnol). Mae angen i'r rhan annibynnol bob amser ddod yn gyntaf (prif) a'i gosod yn ei lleoliad. Dyma y mae pobl yn meddwl amdano gyntaf ac yn ei adnabod. Mae'r rhan ddibynnol bob amser yn dod yn ail (eilaidd), mae'n dibynnu ar yr enw cyntaf, y prif enw. Mae'r rhan hon yn pennu ble yn y lleoliad (yn ei gymhwyso). Byddai'r ffordd hon o roi dilyniant/trefnu enw etholaeth (amlran un) ar gyfer POB etholaeth. Dyma beth bynnag a ddefnyddir. Boed yn ganolfan boblogaeth, yn brif ardal, yn hen uned llywodraeth leol, nodweddd neu ardal ddaearyddol, pwyntiau cwmpawd, ac ati. Bydd y rhan sy'n dibynnu ar y rhan arall (prif) bob AMSER yn ôl-ddodiad ac yn ei chymhwyso. Yr un ffordd bob amser, y "ffordd etholaethol". Yr un modd - "ffordd etholaethol" ar gyfer POB etholaeth. Daw'r brif ran yn gyntaf, daw'r is-ran (eilaidd) yn ail.

Prif-----Atodol

Prif-----Cymhwyswr

Hawdd i'r Defnyddiwr

Beth bynnag, sut bynnag mae person yn dymuno defnyddio enw'r etholaeth, at ba ddiben y mae'r ffurf hon o gymorth ac yn ddefnyddiol.

Mae gan Gymru gyfoeth o enwau, ni ddylid BYTH defnyddio pwyntiau cwmpawd.

"Rhannau ar wahân" i'w hosgoi ar bob cyfrif. Mae 'cysylltedd' yn yr etholaeth o'r pwys mwyaf i ffurfio un etholaeth. Fel arall, mae'n gwneud 'dwy' etholaeth o dan un enw i bob pwrpas. Mae Cymru'n wlad fach gryno hyd yn oed gyda'r rhan ganolog.

Mae angen cyfaddawdu gan bawb ar gyfer etholaethau priodol ac addas ledled Cymru.

Ble a sut rydych chi'n dechrau effeithio ar yr etholaethau y gallwch eu cael a pha rai na allwch eu cael. Beth yw eich set 31 (2).

Mae gan nifer o leoedd cychwyn y broblem o'u rhoi i gyd at ei gilydd i ffurfio un set hyfyw. Yn anorod, mae problemau'n codi. Gwneir newidiadau/ addasiadau/ diwygiadau. (os/ lle bo'n bosibl) Neu i ddechrau o'r newydd.

Wrth rifo etholaethau mae nifer o ffyrdd o fod yn nhrefn yr wyddor ac yn ddaearyddol. Bydd yr iaith a ddefnyddiwyd gennych yn effeithio ar y ffordd yn nhrefn yr wyddor. Ni ddylid ffafrio un iaith dros y llall – y ddwy iaith yn gyfartal. Mae'r ffordd ddaearyddol yn osgoi hyn. Mae'r ffordd ddaearyddol yn fwyaf defnyddiol a chynorthwyol os defnyddir mapiau. Gyda'r ffordd hon ble i ddechrau a sut i fwrw ymlaen, mae angen nodi'r rhain. Y ffordd Gymreig yw dechrau yn y gogledd, mynd tua'r dwyrain. Ynys Môn yw'r etholaeth fwyaf i'r gogledd-ddwyrain. Dyma'r unig etholaeth warchoddedig hefyd. Felly mae bob amser yn wir ac ni all amrywio. Felly y lle delfrydol i ddechrau. Mynd tua'r dwyrain, o'r gorllewin i'r dwyrain. I rifau fod yn gysylltiedig â'r lleoliad agosaf i bob un. Yna i newid hyn gyda phob llinell. Tua'r dwyrain i ddechrau, yna tua'r gorllewin, fel arall gyda phob llinell (fel ffurf neidr). Wrth ddefnyddio mapiau (ar ba lefel bynnag) mae'r ffordd ddaearyddol yn briodol ac yn addas. Defnyddir y ffordd ddaearyddol yma gyda chyfeiriad arall gyda phob llinell yn dechrau yn y gogledd-orllewin yn mynd tua'r dwyrain am yn ail. Pen y neidr yn y gogledd orllewin, cynffon y neidr yn y de-ddwyrain.

Mae cwota DU sy'n rhoi'r amrediad etholiadol (+-5%). Rhaid i bob etholaeth nad yw'n cael ei gwarchod fod o fewn yr amrediad etholaethol hwn (69,724-77,062). Unwaith y gwneir hyn, yna beth bynnag sydd orau i'r etholaeth honno. Nid i fynd mor agos at gwota'r DU (73,393) â phosibl. Nid i fod â'r amrywiant lleiaf neu ddim amrywiant.

Gall fod gwahanol fathau o etholaethau - gall y rhain fod yn ynys, tref a dyffryn, trefol, gwledig, Gwledig – Trefol, Trefol – Gwledig, Tref, trefi, dyffryn, etholaethau dinasoedd ac yn y blaen. Mae gan Gymru'r rhain i gyd.

Gellir ystyried bod Cymru wedi'i ffurfio o wahanol rannau. Bu sawl ffordd o wneud hyn, ond efallai bod tua hanner dwsin o rannau- ardaloedd/ rhanbarthau yn arferol. Sef gogledd-orllewin Cymru, gogledd-ddwyrain Cymru, canolbarth Cymru, de-orllewin Cymru, Canol de Cymru, de-ddwyrain Cymru.

Gyda'r tir a'r boblogaeth yng ngogledd Cymru a'r gofynion ar gyfer etholaethau efallai gogledd-ddwyrain Cymru a gogledd-orllewin Cymru fel un- Gogledd Cymru. Mae bod ag etholaethau fel eu bod yn dilyn gogledd-ddwyrain Cymru a gogledd-orllewin Cymru yn fwyaf priodol. Yn sicr, mae'n gwasanaethu'r ddwy ran hon o Gymru yn well. Gan fod pob rhan yn dra gwahanol. Mae'r gogledd-ddwyrain yn / wedi bod yn ddiwydiannol. Mae'r gogledd-orllewin yn fwy amaethyddol. Mae ffyrdd o fyw, anghenion, ac ati yn wahanol iawn. Mae angen ei fath ei hun o gynrychiolydd ar bob un, felly gall etholaethau sy'n dilyn hyn fod yn fwy addas. Mae angen y gynrychiolaeth briodol a chywir ar bob rhan o Gymru. Er na ddylai poblogaeth fod yr unig ffactor y mae angen iddo fod yn rhan o'r meini prawf. O hyn, tua nifer yr

etholaethau ar gyfer pob rhan o Gymru fyddai gogledd-orllewin -3 (1 wedi'i warchod). Gogledd-ddwyrain- 4. Canol – 2. De-orllewin – 4. Canol y de- 7. De-ddwyrain- 12.

Efallai mai rhan ogleddol Cymru sy'n achosi'r her anoddaf. Yn gyffredinol, mae dwy ffordd. Naill ai gwahanu trefol a gwledig, neu gyfuno gwledig a threfol gyda'i gilydd - eu hintegreiddio. Mae'r rhan arfordirol sy'n ardaloedd 'gwyliau' yn bennaf, y rhan mewndirol sy'n 'ffermio' yn bennaf, y rhan ddwyreiniol sy'n 'ddiwydiannol' yn bennaf. Nid yw pob rhan yn un o'r rhain yn unig. Yna mae sawl ffordd arall o fewn y dulliau cyffredinol hyn. Mae manteision ac anfanteision ar gyfer pob un. Bydd rhai'n credu bod gan bob un ffordd wahanol o fyw ac ati ac felly ychydig yn gyffredin ac y dylent fod ar wahân. Bydd eraill yn credu eu bod yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn dibynnu ar ei gilydd. Efallai y bydd rhai yn edrych arno fod un yn fath o 'gefn gwlad' ar gyfer / i'r llall ac felly y dylai fod gyda'i gilydd. Tra bydd eraill yn gwrthwyneb hyn yn gryf. Bydd cefnogwyr a gwrthwynebwyr ar gyfer pob un. Efallai ceisio gwneud y ddau h.y. mewn rhai ardaloedd yn cyfuno'r ddau, mewn ardaloedd eraill yn gwahanu'r ddau. Beth bynnag a wneir mae'r union ffin rhyngddynt i gyd yn bwysig, ble i ddechrau a gorffen pob un? Yn amlach na pheidio y llinell wirioneddol rhwng y ddau, ni fydd modd cael y ffin orau ar gyfer pob un oherwydd yr amrediad etholaethol. Mae hyn wedyn yn ychwanegu dimensiwn arall o ystyriaeth ac amrywiad. Ble fydd y ffin yn dod i ben? Bydd hyn yn golygu symud wardiau rhwng etholaethau. Mae'r rhain i gyd yn bwysig iawn i'r bobl y maent yn effeithio arnynt. Y bobl sy'n gorfod byw gyda nhw. Er bod safbwyntiau amrywiol ar sut y dylai pob lle yng Nghymru fod. Mae'n bosibl mai gogledd Cymru sydd â'r mwyaf. Efallai fod pobl yn meddwl mai de Cymru fyddai'r un. Mae tair ardal sylfaenol ar gyfer etholaethau. Etholaethau'r ddinas - o'r 3 phrif ddinas yng Nghymru - Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd. Etholaethau'r cymoedd. Etholaethau'r trefi e.e., Castell-nedd, Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Y Barri, Llanelli ac yn y blaen. Mae'r amrywiaeth a'r posibiladau yng ngogledd Cymru yn gynnwl, gan ei wneud yn her fawr, ac yr un anoddaf. Efallai y gallai ac y dylai canolbarth Cymru fod yr un hawsaf. Unwaith y penderfynir y dylai gael dwy etholaeth, a hynny'n briodol. Dwy etholaeth iddo'i hun. Peidio â bod ar gyfer niferoedd ar gyfer eraill. Peidio â bod â 'hanner' etholaethau ar gyfer/ gyda gogledd a de ohono. Ni fydd y ddau arall yn gwasgu'r canolbarth hwnnw. Ni fydd yn cael ei ddefnyddio fel "rhif". Mae'n rhanbarth ynddo'i hun- iddo'i hun. I Gymru fod â dwy etholaeth.

Y ddwy sylfaen ar gyfer etholaethau yn y canolbarth yw ei brifddinas 'answyddogol'. Unwaith yn cael ei hystyried yn y ganrif ddiwethaf i fod yn brifddinas Cymru. Yn gartref i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Canolfan addysg uwch. Y lle mwyaf yng nghanolbarth Cymru. Felly, un o'i etholaethau i'w seilio ar Aberystwyth. Radiws o'i gwmpas. Y canolfannau eraill yw'r ardal fwyaf a'r brif ardal sirol/llywodraeth leol yng nghanolbarth Cymru. Yn seiliedig ar Bowys. Felly dwy etholaeth y canolbarth i fod: Aberystwyth; Powys.

Mae'r adolygiad hwn i gyd i barchu canolbarth Cymru, yn rhoi dwy etholaeth iddo y mae'n eu haeddu ac y dylai bod â nhw, a hynny'n briodol. I ddiweddu'r "ddwy hanner" etholaethau. Wedi'u gwneud felly-Cymru i fod â'i dwy etholaeth ei hun: un yn Aberystwyth, ac un ym Mhowys.

Etholaeth Aberystwyth

Etholaeth Powys

Aberystwyth 76,182

Cyfansoddiad



Aberystwyth - Penparcau 2084 Rheidol 1776
Central 1358 North 1478 Bronglais 936
Llanbadarn Fawr - Sulist 973 - Padarn 767;
Faenr 1985 Tŷmymach 1403 Trefeurig 1382
Borth 1677 Ceulanamaesmawr 1551 Machynlieth
1701 Glantwymyn 1701 Llanbrynmair 798
Banwy 847 Llanuddyn 846 Aberdovey 907
Tywyn 2476 Llangelynin 1625 Bryn-crug/
Llangibangel 772 Corris/Mawddwy 1023
Dolgellau - North 953 South 1072; Abernaw 1581
Dyffryn Ardudwy 1169 Llandbedr 768
Birddir Llangochreth / Gantlwyd / Lanelltyd 1132 Llanuwchllyn 686
Melindwr 1578 Blaen Hafren 1876 Llanidloes 2149 Llandinam 1155
Caersŵs 1831 Rhayader 1589 Nantmel 1243 Llandrinod - North
1517 South 1726 East/West 949 Llanyre 978 Dissert & Trecoed 1055
Llanafanfawr 1141 Llanwrtyd Wells 1450 Builth 1849
Bronllys 1060 Llanfarian 1193 Ystwyth 1673 Llanrhystyd 1255
Lledrod 1812 Llanrhystyd 1255 Llansantffraed 1935
Aberaeron 1088 Cilian Aeron 1613 Llangibangel Ystrad 1666
Tregarn 951 Llangeltho 1168.

Dynodiad

Tref Aberystwyth yw canol canolbarth Cymru a chanol yr etholaeth hon. Mae'n debyg iawn i Leeds rhanbarth canolbarth Cymru. Mae mor ganolog ag y gallwch ei gael ar gyfer canolbarth Cymru. Mae mor ganolog ag y gallwch ei gael ar gyfer Cymru, a chydychyathrebu gweddol dda yr oedd unwaith yn gystadleuydd i'r brifddinas. Byddai'r rhan fwyaf o bobl yng nghanolbarth a gogledd Cymru wedi dymuno hynny. Ond nid oedd ganddo unrhyw gyfathrebu uniongyrchol â Llundain. Defnyddir ei enw ar gyfer yr etholaeth am sawl rheswm. Digon yw dweud ei fod yn cael ei gofio


ymhlith lleoedd/amserau canolbarth Cymru. A hithau'n "brifddinas" answyddogol Cymru, mae'n iawn bod ag etholaeth wedi'i henwi ar ei hôl.

Esboniad

Etholaethau sy'n gyfrifol am y Canolbarth. Fel rhanbarth/ardal fach - y lleiaf. Yna mae angen ac mae'n iawn i'r canolbarth fod â dwy etholaeth gyfan ar gyfer ac iddi hi ei hun. Byddai prifddinas answyddogol Cymru yn naturiol yn un o'r rhain. Mae'n bwysig a byddai maint hefyd yn dangos hyn. Byddai radiws o'r dref ar gyfer cyfathrebu a chysylltedd yn ffurfio'r etholaeth. Mae'r Dyffryn Dyfi cyfan yn ffurfio un ac felly mae'n rhan ohono. Mae cymdeithasau De Meirionnydd wedi bod yn gysylltiedig ers amser maith â'r Canolbarth. Ac mae ganddo lawer mwy yn gyffredin ag Aberystwyth, ac yn llawer agosach nag Arfon neu Ddwyfor. Yn wir, ar gyfer rhanbarthau'r Senedd mae Meirionnydd yn rhanbarth y canolbarth. Unwaith, at ddibenion y llywodraeth roedd Meirionnydd yn rhan o ganolbarth Cymru. Mae gandde Ceredigion lawer mwy yn gyffredin â siroedd y de-orllewin - yn enwedig ardal y Teifi. Mae rhan orllewinol Powys yn teimlo llawer mwy gydag Aberystwyth na rhan ddwyreiniol Powys, yn enwedig ardal Machynlleth sy'n teimlo ac yn cwyno bod rhannau dwyreiniol Powys yn cael eu hanghofio. Mae tref sirol Powys yn y rhan ddwyreiniol. Mae'r ardal yn cael ei gwasanaethu orau drwy gael ei hetholaeth ei hun. Mae'n rhoi llais i'r ardal ac i ganolbarth Cymru. Llais y mae mawr ei angen yn wir.

Powys 72,446

Cyfansoddiad



NOT TO SCALE	Llanthecadr-yn-Mochnant/Llanisili 1815
	Llanfyllin 1217 Llanantppraid 1563
	Llandysilio 1441 Llandrinis 1763 Meifod 1069
	Llanfihangel 895 Llanfair Caereinion 1301
	Gulispield 1827 Welshpool - Llanerchymedd 1602
	Castle 962 Gungwy 1995; Trewern 1066 Forden 1215
	Berriew 1102 Rhinwycynn 1724 Newtown Llanllechian -
	West 1447 North 1796; Newtown - East 1401 Central
	2122 South 1215; Dolforwyn 1652 Montgomery 1107
	Churchstoke 1292 Kerry 1607 Begulidy 1135
	Knighton 2296 Presteigne 2174 Llangwullo 1071
	Llanbadarn Fawr 925 Old Radnor 1375
	Llanfawr 987 Glasbury 1901 Hay 1355

(8)

Gwernyped 1178 Talgarth 1305 Felin-Fach 1102 Brecon -
St John 2355 St Mary 2194 St David Within 1263; Yscir 888
Maesgar/Llywel 1405 Ystralygyn 1935 Cwm-Turch 1557
Ynyscedwyn 1705 Aber-Craf 1143 Tawe-Vchaf 1763 Talybont-on-
Uck 1537 Llanawr 901 Bwlch 800.

Dynodiad

Enwir yr etholaeth ar ôl y sir y mae'n cwmpasu'r rhan fwyaf ohoni. Dyma'r sir fwyaf yn ardal Cymru. Dyma'r sir fwyaf yn ardal a phoblogaeth canolbarth Cymru. Felly fel sir bwysicaf canolbarth Cymru i gael ei hetholaeth ei hun. Etholaeth a enwir ar ei hôl. Dyma fydd y tro cyntaf i etholaeth o'r fath ac i'r enw.

Esboniad

Mae Sir Powys ymhell y tu allan i'r amrediad etholaethol i fod ag etholaeth ar gyfer y cyfan. Ond gall y rhan fwyaf ffurfio etholaeth. Y rhan o'r sir nad oes ganddi gysylltedd, cysylltiadau na chyfathrebu da â'r gweddill yw'r rhan orllewinol. Felly dyma'r rhan i beidio â'i chynnwys yn yr etholaeth. Felly i ddod â'r niferoedd o fewn yr amrediad etholaethol. Mae cysylltiad da iawn rhwng rhan ddwyreiniol y sir. Mae'r rhan ddwyreiniol gyfan wedi'i chysylltu'n ddamweiniol â'r A483 sy'n rhedeg ar hyd yr holl sir. O'r Trallwng i Lanfair-ym-muallt sy'n mynd drwy'r Drenewydd, Llandrindod, y prif ganolfannau. Mae Aberhonddu wedi'i gysylltu â nhw gan yr A470. Llwybr mwy uniongyrchol yw cyn y 520, ond mae'n Ffordd 'b'. Dyna holl ran ddwyreiniol Powys wedi'i chysylltu'n dda, gyda chysylltiadau da drwyddi draw. A dylai fod gyda'i gilydd, a hynny'n briodol. Mae hyn yn naturiol yn ffurfio un etholaeth. Mae'r rhan orllewinol braidd ar wahân. Yn wir, maen nhw'n teimlo eu bod wedi'u gadael allan. Yn enwedig ardal Machynlleth. Yna maen nhw'n dweud bod y dwyrain (tref a neuadd y sir) wedi eu hanghofio. Maen nhw'n teimlo eu bod wedi'u gadael allan o bethau. Maent yn edrych yn fwy i Arfordir y gorllewin ac yn rhan ohono. Aberystwyth yw eu canolfan mewn gwirionedd. Maent wedi'u cysylltu'n fwy uniongyrchol ag Aberystwyth nag â Llandrindod ac yn sicr yn llawer agosach- llawer agosach. Mae etholaeth Powys, a hynny'n briodol, yn cynnwys yr holl ran ddwyreiniol. Os na allai unrhyw ran o sir Powys fod yn etholaeth Powys, dyma'r rhan orllewinol. Mae'r etholaeth hon yn gwneud hyn ac mae o fewn yr ystod etholaethol. Gellir addasu'r ffin wirioneddol rhwng y ddwy etholaeth bob amser. Fel gyda'r rhan fwyaf o leoedd, bydd wardiau'n cael eu symud y naill ffordd neu'r llall. Ond gall niferoedd etholaethau ddod yn fwy cyfartal. Efallai mai Powys fyddai'r etholaeth fwyaf allan o'r ddau ohonynt. Gallai Powys fod yn fwy nag Aberystwyth. Byddai'r gorau yn cael ei gyflawni i bawb.

Gyda rhai setiau, oherwydd yr amrediad etholaethol, yna efallai y bydd yn rhaid trosglwyddo/symud rhai wardiau i'r etholaethau eraill hyn. Pan fydd yn rhaid i hyn ddigwydd, caiff ei nodi yn y set (etholaeth) a rhoddir yr effaith ar y naill etholaeth neu'r llall neu'r ddwy etholaeth hyn.

Ar hyn o bryd mae gan y canolbarth dair etholaeth (Trefaldwyn, Aberhonddu a Sir Faesyfed a Cheredigion). Bydd y cynigion yn rhoi un etholaeth i'r Canolbarth yn unig fel etholaeth yng nghanolbarth Cymru i lawr dwy ran o dair. Mae ganddi hefyd rannau o etholaethau, un gyda'r gogledd ac un gyda'r de.

Gallai a dylai fod ganddi ddwy etholaeth. I fod â dwy etholaeth yng nghanolbarth Cymru. I fod ag o leiaf dwy etholaeth ei hun.